CYFRES C5

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Ruth 1: 1-14

Astudiaeth 1 Ruth – Teulu ymhell oddi wrth Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Deuteronomium 30: 15-20 Diarhebion 14: 12 Eseia 53: 6

Y blynyddoedd treisgar a ddarlunnir yn llyfr y Barnwyr yw'r cefndir i stori heddychlon Ruth. Roedd hi'n argyfwng yng ngwlad Israel.

C Beth oedd yr argyfwng hwnnw? 1

ADNOD ALLWEDDOL
Barnwyr 21:25

Mae rhan olaf yr Adnod Allweddol yn esbonio'r rheswm dros yr argyfwng hwnnw.

C Beth mae'r adnod yn ei ddweud? 1

Roedden nhw'n byw yn y wlad a addawyd iddynt gan Dduw, flynyddoedd lawer cyn hynny, pan oeddent yn dal yn gaethweision yn yr Aifft.

C Sut wlad fyddai hon yn ôl Duw? Edrychwch ar Exodus 3: 8. 2

Nid felly roedd hi bellach, mae'n ymddangos! Pam? Roedd y genedl gyfan wedi troi eu cefnau ar Dduw. Nawr roedd Duw yn troi Ei gefn arnynt hwy ac yn atal Ei fendith. Tanlinellir pwysigrwydd yr Adnod Allweddol gan y ffaith fod yr adnod hon i'w gweld hefyd yn Barnwyr 17:6. Mae'n amlwg fod Israel, ers blynyddoedd, wedi dilyn ei llwybr ei hun ac wedi anghofio Duw. Roedd Elimelech a'i deulu yn brwydro byw yn Israel a'r dyfodol yn edrych yn dywyll. Roedd pob pryd bwyd yn brinnach na'r un o'i flaen. Roedd eu ffydd yn sigledig. Gwnaent eu trefniadau heb ofyn am help Duw. Gadawsant eu cartref, eu perthnasau a phob dim oedd yn gyfarwydd iddynt. I ffwrdd â nhw i wlad estron!

GRID GEIRIAU



I LAWR
1. Mudodd y teulu i'r wlad hon.
2. Un wraig o Moab.
3. Un o feibion Elimelech.
4. Mab arall i Elimelech
5. Gwraig Elimelech.

AR DRAWS
6.Gadawodd Elimelech a'i deulu y dref hon yn Jwda. 6

Roedd bywyd i'r teulu hwn yn galed, yn enwedig ar ôl marwolaeth Elimelech! Cyn hir, penderfynodd y ddau fab ei bod yn bryd iddynt briodi. Priododd Mahlon ferch o'r enw Ruth, tra mai Orpa oedd dewis ei frawd. Roedd dynion Iddewig yn torri cyfraith Duw wrth briodi merched estron. Nes ymlaen, trawyd y teulu gan drasiedi arall enbyd.

C Beth oedd honno? 1

C Beth barodd i Naomi ddychwelyd i Jwda? 1

Naomi, bellach, oedd y penteulu ac roedd yn gyfrifol am eu merched-yng-nghyfraith. Roedd yn ddyletswydd arni i ddod o hyd i wŷr iddynt. Mae hyn yn esbonio adnodau 11-13. Gan nad oedd ganddi feibion eraill, anogodd hwy i ddychwelyd at eu teuluoedd. Roedd Naomi'n hoff iawn o'i merched-yng-nghyfraith. Gwerthfawrogai bopeth roeddent wedi ei wneud drosti hi a'i meibion.

C Ysgrifennwch ran o adnod sy'n dangos hynny. 2

Roedd y ddwy weddw hefyd wedi dod yn hoff iawn o'u mam-yng-nghyfraith.

C Edrychwch ar adnodau 9-14 a rhowch resymau i brofi hyn. 3

Daeth y ddwy weddw ifanc wyneb yn wyneb â dewis. Er hynny, ni ddaeth y ddwy i'r un penderfyniad. Rydym ninnau hefyd yn wynebu nifer o ddewisiadau yn ein bywydau, rhai ohonynt yn bwysicach nag eraill. Y pwysicaf oll, fodd bynnag, yw a ydym yn penderfynu bod yn ddilynwyr Iesu Grist ai peidio. Mae ein penderfyniad yn pennu a fyddwn yn treulio tragwyddoldeb gyda Duw neu beidio. Mae'n amlwg fod Naomi yn gwybod rhywbeth am yr Arglwydd a'i ffyrdd Ef.



C Nodwch rif yr adnod lle dywed wrth ei merched-yng-nghyfraith: 3

"Bydded yr Arglwydd yn garedig wrthoch chi ..." Adnod: .....

"Bydd yr Arglwydd yn rhoi gŵr arall i chi." Adnod: .....

"Mae llaw yr Arglwydd yn f'erbyn". Adnod: .....

Yn aml iawn yn ein bywydau, rhaid i ninnau ddewis rhwng mynd ar hyd ffordd Duw neu ddilyn ein llwybr ein hunain. Mae'r stori hon yn sôn wrthym am ffolineb torri'ch cwys eich hun heb geisio arweiniad a chymorth Duw.